Prosesu Geiriau Lefel 2 (03948) – Gwanwyn 10

Llwyddodd pob ymgeisydd i gwblhau'r papur arholiad. Roedd y safon yn dda gydag ôl ymgeiswyr yn prawf-ddarllen eu gwaith yn ofalus. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio.

Dogfen 1

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda iawn. Llwyddodd pob ymgeisydd i newid yr ymyl chwith a'r ymyl uchaf yn gywir ac i ddefnyddio unioni llawn. Llwyddodd pawb i gopïo a symud testun yn ôl y cyfarwyddiadau. Llwyddodd pob ymgeisydd i fewnleoli'r paragraff ac i newid i ofod sengl pan oedd angen gwneud hynny. Fodd bynnag, ni lwyddodd ambell ymgeisydd i roi'r troedyn yn y canol (2.3) ond mi lwyddodd pob ymgeisydd i gychwyn paragraff newydd yn ôl yr arwydd cywiro (2.3). Llwyddodd pawb i rifo'r tudalennau yn ôl y cyfarwyddyd ac i newid un gair am un arall trwy gydol y ddogfen. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio yn y ddogfen hon.

Dogfen 2

Cwblhawyd y ddogfen hon yn arbennig o dda. Llwyddodd pob ymgeisydd i ganoli'r pennawd ac i ad-drefnu'r rhestr yn nhrefn y wyddor. Bu pawb yn llwyddiannus wrth fewnosod y llun a newid ei faint yn ôl y gofyn. Newidiwyd maint y ffont a thanlinellwyd yn gywir. Llwyddodd pob ymgeisydd i argraffu un copi tirlun. Cosbwyd gwallau teipio yn bennaf yn y ddogfen hon felly. Hefyd, fe lwyddodd pawb i gynnwys nifer y geiriau yn gywir ar ddiwedd y ddogfen.

Dogfen 3

Fe wnaeth pob ymgeisydd newid y drefn yn y tabl yn ôl y gofyn. Defnyddiodd pawb y ffont gywir a gadawyd gofod fertigol yn gywir bob tro. Llwyddodd pob ymgeisydd i deipio penawdau'r colofnau yn union fel ag yr oeddent yn ymddangos yn y papur arholiad. Llwyddodd pob ymgeisydd i gyfuno'r celloedd hefyd fel bod penawdau'r adrannau yn ymestyn dros ddwy golofn. Llwyddodd pob ymgeisydd i ddiffodd y llinellau o gwmpas y tabl ac i roi'r pris uchaf yn gyntaf wrth ad-drefnu.

Dogfen 4

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda iawn. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio ond llwyddodd pob ymgeisydd i rifo ail dudalen y ddogfen . Llwyddodd pawb i ddefnyddio'r pennawd a'r ffont gywir a llwyddodd pawb i gynhyrchu'r copïau ychwanegol. Roedd yr ymgeiswyr yn gyson wrth deipio a chyflwyno'r pwyntiau bwled.